

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Mawrth, 18fed Mehefin, 2024 at 10.00 am

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Sir: Jill Bond, Rachel Buckler, John Crook, Meirion Howells, Alistair Neill, Paul Pavia, Peter Strong, Ann Webb and Angela Sandles

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Hazel Ilett	Rheolwyr Craffu
Robert McGowan	Swyddog Polisi a Chraffu
David Jones	Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Huw Owen	Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Iechyd Cyhoeddus)
Alun Thomas	Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
Jennifer Walton	Rheolwr Gwasanaeth Cofrestru

YMDDIHEURIADAU:

Councillors Catherine Fookes

1. Ethol Cadeirydd.

Enwebwyd y Cynghorydd Neill gan y Cynghorydd Webb, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Howells.

2. Penodi Is-Gadeirydd.

Enwebwyd y Cynghorydd Strong gan y Cynghorydd Bond, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Crook. Enwebwyd y Cynghorydd Buckler gan y Cynghorydd Pavia, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Neill.

Roedd y bleidlais yn gyfartal, ar 4 fesul pob enwebai. Gyda phleidlais fwrw'r Cadeirydd cafodd y Cynghorydd Buckler ei benodi.

3. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

4. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Dim.

5. Perfformiad Diogelu'r Cyhoedd 2023/24 - Adolygu perfformiad y maes gwasanaeth.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Angela Sandles, David Jones, Alun Thomas a Huw Owen yr adroddiad ac atebwyd cwestiynau'r aelodau ganddynt.

Pwyntiau allweddol a wnaed gan aelodau:

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Mawrth, 18fed Mehefin, 2024 at 10.00 am

- O ran achos llys am sŵn, gan ofyn a gafodd y warant i atafaelu offer ei weithredu. Gan ofyn, wrth wneud hynny, sut y sicreir diogelwch swyddogion.
- Gan nodi bod parthau GDMC gwahardd cŵn wedi dod i rym ar 1^{af} Mehefin ond nid yw arwyddion yn eu lle eto. Ceisio sicrwydd y byddwn yn cymryd gorfodaeth o ddifrif ond hefyd y bydd synnwyr cyffredin yn cael ei ddefnyddio. Gofyn a fydd erlyniadau'n digwydd cyn i'r arwyddion cael eu gosod.
- Roedd yr aelodau'n poeni bod ehangder enfawr o faterion i'r tîm ddelio â nhw, ond dim ond 8 swyddog sydd. Yn meddwl sut y byddai'r tîm yn delio ag achos damcaniaethol o aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â'r tîm am y defnydd anghyfreithlon o chwynladdwr mewn man cyhoeddus. Gofyn a yw'r arbenigedd yn fewnol neu a fyddai rhywun yn dod i mewn o'r tu allan.
- Am eglurhad a yw'n fater o gysylltu ag asiantaethau eraill yn hytrach na galw i mewn i gontractwyr allanol.
- Gofyn a oes gwahaniaeth wedi bod mewn safonau bwyd mewn busnesau cyn ac ar ôl y pandemig. Chwilio am fwy o fanylion am sut mae'r tîm yn ei gael pan fydd pethau'n anfoddfaol, a pha fesurau sy'n cael eu cymryd.
- O ran landlordiaid, gan ofyn sut mae safonau anfoddfaol yn cael eu nodi ar gyfer y rhai sy'n rhentu, ac a oes strwythur ar waith i geisio atal y problemau hyn.
- Gofyn a oes cydberthynas rhwng tipio anghyfreithlon a nawr gorfod cael apwyntiad mewn depos gwastraff.
- Am eglurhad o ran pa gyfran o ymweliadau iechyd anifeiliaid sy'n fferm neu'n breswyl.
- Nodi bod gwall teipio ar t1, 3.1: Perfformiad a 'Oversight', dylai hynny fod yn 'Overview'.
- T7, costau generig ariannol: gofynnwyd am esboniad pellach am y gwahaniaeth o'r hyn a ragwelwyd.
- T9-15, ynghylch meysydd lle mae angen gwella, gofynnwyd pa arfer gorau sy'n cael ei gymharu â siroedd cyfatebol, a sut rydym yn graddio y tu hwnt i'r niferoedd, sy'n gysylltiedig â grwpiau eraill.
- Gofyn pam nad yw cau achosion mor dda ar orchmynion Diogelu'r Amgylchedd. Nododd yr aelodau fod canrannau'n cael eu rhoi ond nid y targedau.
- Gofyn beth yw cau, ac a oes llofnodi neu gytundeb gan y cwsmer.
- O ran adnoddau, roedd yr aelodau eisiau gwybod a oes gennym y gallu i orfodi ac eisiau rhagor o fanylion am adnoddau yn erbyn risg a chyllideb?
- Yn ceisio esboniad pellach am gwynion ychwanegol a grybwyllir ar t18, ynghylch sŵn.
- Am eglurhad o ran y mater bwyd anifeiliaid sydd yn 5.4.1.
- O ran y Strategaeth Toiledau, atgoffa'r tîm bod y Cynghorydd Pavia wedi codi mater cyfleusterau cefnogi Stoma y llynedd, a gofyn a yw hynny'n rhan o'r adolygiad.
- Gan fod yr eitem hon yn dod i'r pwyllgor bob 6 mis yn wreiddiol, gwirio bod y swyddogion yn fodlon dod ag adroddiad blynyddol.
- Ceisio esboniad pellach o'r gorwariant ar gyfer costau rheoli a chyffredinol.
- Gofyn am esboniad o'r ffordd wahanol o riportio tipio anghyfreithlon, ac a yw'r niferoedd i lawr oherwydd y ffordd yr ydym yn ei riportio.
- O ystyried bod adnoddau cost yn broblem, gofynnodd yr aelodau am sicrwydd bod gan y tîm y gallu i gyflawni ei ddyletswyddau.
- Ynghylch iechyd a lles anifeiliaid a'r achos proffil uchel y flwyddyn ddiwethaf gyda Noddfa'r Eneidiau Coll, gan ofyn a ydym wedi ymgymryd ag ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' i ddeall a wnaethom gyflawni ein swyddogaethau yn effeithiol ar bob cam o'r broses, yn enwedig o ran cyfathrebu cyhoeddus. Nodi y gallai'r achos penodol hwnnw olygu na ellir ei drafod heddiw.
- Gofyn pa gamau rydym yn eu cymryd yn erbyn busnesau sy'n gwerthu cynhyrchion fepio neu dybaco nad ydynt yn cydymffurfio neu'n anghyfreithlon, yn enwedig os ydynt yn gwneud hynny i blant dan oed.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Mawrth, 18fed Mehefin, 2024 at 10.00 am

- Mae'n ymddangos bod cysylltiad rhwng troseddau cyfundrefnol a gwerthu anghyfreithlon. O ystyried heriau adnoddau'r tîm, gan ofyn a ydym yn hyderus y gallwn barhau â'r mater o gynhyrchion fepio anghyfreithlon wrth symud ymlaen.

Ymatebodd swyddogion a oedd yn bresennol i'r holl gwestiynau a godwyd ac roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r ymatebion a roddwyd.

Crynodeb y Cadeirydd:

Cafodd yr adroddiad ei gynnig, a'i eilio gan y Cyngorydd Strong. Nodwn, mewn perthynas â'r cwestiwn olaf y bydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynghori lechyd yr Amgylchedd yr hoffent edrych ar faterion fepio.

Mae'r Aelodau'n dymuno diolch i'r swyddogion am eu gwaith a'u gwelliannau rhagorol, yn enwedig am yr adferiad ers Covid, ac am y gwaith sydd wedi'i wneud i ddigwyddiadau grŵp Cyngor Diogelwch a GDMCau rheoli cŵn.

6. Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cofrestru 23/24 - Adolygu perfformiad y maes gwasanaeth.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Angela Sandles yr adroddiad gyda David Jones a Jennifer Walton, a atebodd gwestiynau'r aelodau.

Pwyntiau allweddol a wnaed gan aelodau:

- Gofyn a yw'n bosibl rhoi targedau statudol penodol mewn perthynas â meysydd eraill/cymaradwy.
- Gofyn a yw 'cwblhau'r gwaith' yn ddangosydd perfformiad allweddol defnyddiol?
- Am eglurhad o ran lle cedwir cofnodion e.e. yn Neuadd y Sir mewn archif.
- Mae 4.5 a 5.2 yn sôn am weithdrefnau craffu newydd mewn perthynas â marwolaethau – yr angen am ddogfennaeth ychwanegol ac ati – gofynnodd yr aelodau a oedd goblygiadau adnoddau
- Gofyn a oes unrhyw beth yr hoffai swyddogion ei weld yn cael ei newid yn y gwasanaeth hwn, ac a oes unrhyw beth yn cael ei nodi y gellid ei wneud yn well.
- Nodi cau'r uned famolaeth yn Ysbyty Nevill Hall, gan holi os oes unrhyw ganlyniadau o beidio â chofrestru genedigaethau yn Sir Fynwy, ac a oes unrhyw beth y dylem felly ei ystyried.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar berfformiad y gwasanaeth a'r atebion a roddwyd i gwestiynau a ofynnwyd.

Crynodeb y Cadeirydd:

Mae'r pwyllgor yn dymuno cymeradwyo'r tîm am ei berfformiad rhagorol, yn enwedig o ran cwsmeriaid a welwyd a'r rhai sy'n chwilio am apwyntiad yn rhedeg ar 100%. Cafodd yr adroddiad ei gynnig, a'i eilio gan y Cyngorydd Buckler.

Gan nodi ymddeoliad David Jones ym mis Medi, mae'r pwyllgor a'r cyngor yn diolch am ei flynyddoedd o brofiad a'i waith caled, ac yn arbennig am ei waith yn ystod heriau digyngsail y pandemig.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Mawrth, 18fed Mehefin, 2024 at 10.00 am

7. Perfformiad a Throsolwg - Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a Rhestr o Gamau Gweithredu'r Pwyllgor Craffu (Rhaglen Waith i'r Dyfodol i ddilyn).

Nodi'r cyfarfodydd ychwanegol ac aildrefnu oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad. Nodi'n benodol yr e-bost a anfonwyd ddoe gan fod rhai amseroedd wedi newid. Mae meysydd perfformiad yn y ddau adroddiad heddiw yr hoffem weld tystiolaeth debyg mewn adroddiadau yn y dyfodol i helpu i hysbysu aelodau a'r cyhoedd ymhellach.

8. Cabinet a Chynllunydd Gwaith y Cyngor.

Nodwyd fod enw Mark Hand yn dal yn erbyn rhai o'r eitemau, er ei fod wedi gadael y cyngor yn ddiweddar. Mae Craig O'Connor bellach yn Bennaeth Creu Lleoedd.

9. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14eg Mai 2024.

Cadarnhawyd y cofnodion.

9.1. Sylwadau Strategaeth Pobl:

Nodwyd â diolch sylwadau'r Cyngorydd Howells yma er budd y cyhoedd.

10. Cyfarfod Nesaf: 11eg Gorffennaf 2024 am 2.00pm.

Gorfennodd y cyfarfod am 12.01 pm